Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Ionawr 2025

## 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024, gyda'r ail ddarlleniad yn cael ei gynnal ar 8 Hydref 2024, a'r cyfnod pwyllgor yn dechrau ar 20 Tachwedd 2024.

**2.** Mae enw hir y Bil yn datgan y canlynol amdano:

> *"A Bill to make provision about the marketing or use of products in the United Kingdom; about units of measurement and the quantities in which goods are marketed in the United Kingdom; and for connected purposes."*

**3.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo Bil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n gysylltiedig â materion datganoledig.

**4.** Gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil ar 20 Medi 2024.

**5.** Ar 24 Medi 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod, gyda 22 Tachwedd 2024 fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.[1] Ar 5 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 10 Ionawr 2025.[2]

# 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**6.** Mae paragraffau 3 i 6 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi.

## Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**7.** Mae'r Memorandwm yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru:

> *"... i'r graddau y gellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud darpariaeth ym meysydd datganoledig iechyd, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yr unig eithriadau, felly'r darpariaethau hynny yn y Bil nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, yw cymal (1)(1)(c), cymal 5, cymal 6 a chymal 9(3), yr ydym yn ei ystyried sydd â mwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol â mater a gedwir yn ôl C8: pwysau a mesurau ac nid ydynt yn ymgysylltu ag unrhyw faterion cymhwysedd datganoledig."*[3]

**8.** Mae rhestr o gymalau sylweddol y mae angen cydsyniad ar eu cyfer wedi'i nodi isod, i'r graddau y mae'r cymalau hynny'n gymwys i reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd datganoledig.

[1] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Medi 2024
[2] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Tachwedd 2024
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, paragraff 10

## Cymal 1: Rheoliadau cynnyrch

**9.** Mae Cymal 1(1)(a) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau (mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y DU) at ddiben:

- lleihau neu liniaru risgiau a gyflwynir gan gynhyrchion.

**10.** Mae Cymal 1(1)(b) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau (mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y DU) at ddiben:

- sicrhau bod cynhyrchion yn gweithredu'n effeithlon neu'n effeithiol.

**11.** Mae Cymal 1(2) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau (mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y DU) sy'n cyfateb i gyfraith yr UE, neu'n debyg iddi, er mwyn lleihau neu liniaru effaith amgylcheddol cynhyrchion.

**12.** Mae Cymal 1(3) a'r Atodlen yn nodi rhestr o gynhyrchion na ellir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan Gymal 1.

## Cymal 2: Gofynion cynnyrch

**13.** Mae Cymal 2 yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y gall rheoliadau o dan Gymal 1 ei gynnwys.

## Cymal 3: Gorfodi rheoliadau cynnyrch

**14.** Mae Cymal 3 yn darparu ar gyfer gorfodi "rheoliadau cynnyrch", h.y. rheoliadau a wneir o dan Gymal 1.

## Cymal 4: Argyfyngau

**15.** Mae Cymal 4 yn darparu y gall rheoliadau cynnyrch gael eu datgymhwyso neu eu haddasu mewn argyfwng.

## Cymal 7: Rhannu gwybodaeth

**16.** Mae Cymal 7 yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y gall rheoliadau cynnyrch (h.y. rheoliadau a wneir o dan Gymal 1) a rheoliadau mesureg (h.y. rheoliadau a wneir o dan Gymal 5) eu cynnwys, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth.

### Cymal 8: Adennill costau

**17.** Mae Cymal 8 yn darparu ar gyfer codi ffioedd mewn perthynas â chostau a dynnir gan awdurdodau perthnasol wrth gyflawni swyddogaethau o dan reoliadau cynnyrch neu reoliadau mesureg.

### Cymal 9: Diwygio Deddfau penodol yn ganlyniadol

**18.** Mae Cymal 9 yn darparu ar gyfer rheoliadau cynnyrch a rheoliadau mesureg i ddiddymu amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol (fel Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987 a Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015) o ganlyniad i'r Bil.

### Cymal 10: Dehongli

**19.** Mae Cymal 10 yn darparu diffiniadau o ymadroddion a ddefnyddir yn y Bil.

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

**20.** Mae paragraffau 33 i 34 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau pam y mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae'n nodi:

> *"Gellir ystyried datblygiad cyfundrefn diogelwch cynnyrch ledled y DU fel rhan allweddol o uchelgais ehangach i sefydlu a chynnal marchnad fewnol effeithiol yn y DU. Yn ogystal, bydd iddi fanteision ychwanegol yn nhermau iechyd a diogelwch cynhyrchion, yn enwedig o ran diogelwch tân. Mae'r Bil hwn yn darparu'r pwerau angenrheidiol i Lywodraeth y DU yn unol â'r nod ehangach hwn. Yn yr ystyr hon, mae'n synhwyrol ac yn ymarferol cefnogi ymdrechion Llywodraeth y DU i gyflawni'r nod hwn sydd o fudd amlwg i bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru."*[4]

## Goblygiadau ariannol

**21.** Mae'r Memorandwm yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith a ddarparwyd ochr yn ochr â'r Bil, sy'n darparu "dadansoddiad ansoddol" ar gyfer y mesurau a geisir yn y Bil. Mae'r Memorandwm yn nodi "n[a] chafodd unrhyw oblygiadau ariannol eu

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, paragraff 33

nodi hyd yma", ond y "bydd cyngor pellach yn cael ei gyflwyno os bydd y sefyllfa hon yn newid".[5]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru o ran cydsyniad

**22.** Daw'r Memorandwm i'r casgliad a ganlyn:

> *"Rydym yn gefnogol o'r Bil hwn o ran ei rôl yn hwyluso gweithrediad esmwyth marchnad fewnol y DU. Fodd bynnag, mae angen o ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU ar y pwerau galluogi yng nghymalau 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2), a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd yn y maes hwn.* Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl ymgysylltu pellach."[6]

## Safbwynt polisi

**23.** Disgrifir un o nodau'r Bil yn y Nodiadau Esboniadol fel a ganlyn:

> *"sicrhau bod modd diweddaru'r gyfraith i ganiatáu dull o gydnabod gofynion newydd neu ofynion diwygiedig yr UE o ran cynnyrch, gyda'r bwriad o atal costau ychwanegol i fusnesau ac o ddarparu sefydlogrwydd rheoleiddiol."*[7]

**24.** Mae'r graddau y gallai'r Bil arwain at aliniad neu ymwahaniad gweithredol/goddefol rhwng y DU a'r UE yn dibynnu ar sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer ei bwerau.

**25.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn cydnabod:

- bod 'mwyafrif llethol' deddfwriaeth y DU sy'n rheoli trefniadau rheoleiddio cynnyrch (ac sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o gynhyrchion defnyddwyr) yn gyfraith a gymathwyd. Mae gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU bwerau eang i newid cyfraith a gymathwyd o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Gall

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, paragraff 35
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, paragraff 36
[7] Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Nodiadau Esboniadol, paragraff 4

Gweinidogion y DU wneud hynny mewn meysydd datganoledig heb gael cydsyniad y Senedd;

- Aelodaeth o'r UE ar gyfer cydnabyddiaeth ar y cyd a marciau cydymffurfio gorfodol a ddaeth i ben i fod yn berthnasol i'r DU ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit. O ganlyniad i hyn, creodd y DU system ar gyfer y DU yn unig (Asesiad Cydymffurfiaeth y DU neu UKCA) tra hefyd yn caniatáu mynediad parhaus rhai nwyddau sy'n bodloni gofynion yr UE i farchnad y DU.

**26.** Yn syml, daw'r adran hon ar y Nodiadau Esboniadol i'r casgliad a ganlyn:

> *"The Bill would provide the Secretary of State with the ability to update relevant legislation to allow the UK to maintain high product standards."*[8]

# 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

**27.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2024. Yn y cyfarfod hwn cytunodd yr Aelodau i anfon Luke Fletcher AS fel cynrychiolydd i sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd i'w gynnal ar 4 Tachwedd.[9][10]

**28.** Yn y sesiwn hon, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn cael ei ddatblygu cyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf gan Lywodraeth flaenorol y DU ond bod Llywodraeth Cymru yn croesawu ei nodau i reoleiddio diogelwch cynnyrch ac yn y bôn, i wneud pethau'n symlach ac yn gliriach i fusnesau.[11]

**29.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd nad yw'r Bil yn effeithio ar Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE, y cynhelir masnach rhwng y DU a'r UE ar ei delerau ar ôl Brexit. Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai fod o ran y rheoliadau sy'n dod oddi tano. Cadarnhaodd fod swyddogion o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau penodol ar yr agwedd hon ar y Bil.

---

[8] Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, Nodiadau Esboniadol, paragraff 6
[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, paragraff 2
[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, paragraff 13

**30.** Gofynnodd Luke Fletcher AS nifer o gwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch goblygiadau'r Bil ar fasnach Cymru a'r UE, marchnad fewnol y DU ac i fusnesau Cymru.

**31.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y bydd y Bil yn:

> *"allow the law to be updated to recognise new or updated EU product requirements. And the intention then is to prevent unnecessary costs and inconvenience to businesses, providing that regulatory stability. So, clearly, that's in the interest of UK businesses and Welsh businesses."*[12]

**32.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i dynnu sylw at y ffaith bod tua 2,500 o dudalennau o ddeddfwriaeth sydd angen diweddariadau technegol fel mater o drefn. Dadleuodd y bydd y Bil hwn yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â safonau'r UE, gan sicrhau bod busnesau'n gallu cael mynediad at farchnad yr UE ac atal ymwahanu goddefol. Aeth yn ei blaen i amlygu:

> *"that was something that we were concerned about very much in the Senedd during that period when we were talking about Brexit and how Brexit would look. So, this aims to prevent that."*[13]

**33.** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet grynodeb o'i barn, gan ddweud:

> *"[the Bill] should be positive for businesses to provide them with that clarity and the ability then to access the EU market."*[14]

**34.** Pan ddywedodd Luke Fletcher AS y byddai'r Bil yn ei gwneud yn haws i gynnyrch yr UE ddod i mewn i farchnad y DU, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet 'Ie'.

**35.** Ar 14 Tachwedd adroddodd Luke Fletcher AS yn ôl i'r Pwyllgor ar y cyfnewidiadau hyn. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet gyda chwestiynau dilynol ynghylch:

- Unrhyw bryderon a allai fod gan Lywodraeth Cymru ynghylch datblygiad y Bil;

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, paragraff 81
[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, paragraff 81
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, paragraff 83

- Unrhyw ymgysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar y Bil gyda busnesau Cymru neu'r Grŵp Cynghori ar Fasnach;
- I ba rai o reoliadau'r UE y gallai'r Bil ymestyn iddynt;
- Sut y bydd y Bil yn rhyngweithio â threfniadau masnach eraill ar ôl Brexit; ac
- Effaith bosibl y Bil ar ddiwydiannau Cymru.[15]

**36.** Daeth yr ymateb i'r llythyr hwn i law ar 11 Rhagfyr 2024.[16]

**37.** Yn y llythyr, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cyfeirio at yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil, ac mae'n nodi:

> *"N[a]d oes angen asesiad effaith penodol i Gymru mewn perthynas â'r Bil, o ystyried natur y darpariaethau a gwaith ymgynghori ac ymgysylltu blaenorol gan Lywodraeth y DU."*

**38.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn cadarnhau nad oes dadansoddiad manwl ar sectorau penodol ar gael ar hyn o bryd. Mae'r llythyr wedyn yn cadarnhau bod:

> *"… rhai cynhyrchion nad ydynt yn dod o dan gylch gwaith y Bil gan fod ganddynt eu hofferynnau deddfwriaethol eu hunain. Er enghraifft, dyfeisiau meddygol a modurol. Felly, mae mynediad gwahanol i'r farchnad yn parhau, ac yn benodol gofynion mewnforio a chydnabyddiaeth yr UE, ar gyfer y cynhyrchion hynny nad ydynt yn dod o dan y Bil."*

**39.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ychwanegu bod Llywodraeth y DU "wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru mewn perthynas â datblygu unrhyw reoliadau o dan y Bil."

**40.** Mewn ymateb i p'un a yw safbwyntiau Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru wedi cael eu ceisio, ymatebodd yr Ysgrfennydd Cabinet gan ddweud:

> *"nid ydym wedi gofyn am farn aelodau'r Grŵp Cynghori ar Fasnach gan fod ffocws y Grŵp ar fasnach ryngwladol. Fodd*

[15] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 20 Tachwedd 2024
[16] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 11 Rhagfyr 2024

> *bynnag, rydym yn ymwybodol o'n gwaith ymgysylltu rheolaidd â hwy eu bod yn gefnogol o ran aliniad agosach â'r UE y mae'r Bil hwn yn darparu'r fframwaith ar ei gyfer. Gan nad yw'r Bil yn creu unrhyw gydnabyddiaeth gilyddol na threfniant cyfwerthedd ar gyfer rheoleiddio cynnyrch, bydd angen i fusnesau Cymru barhau i sicrhau eu bod yn bodloni rheoliadau'r UE wrth allforio i'r UE."*

**41.** O ran pa reoliadau'r UE y byddai'r Bil yn gymwys iddynt, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet, hab fanylion pellach:

> *"Bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth y DU greu aliniad agosach â'r UE drwy ddewis pa reoliadau'r UE, nawr ac yn y dyfodol, maent yn dymuno sicrhau aliniad ar eu cyfer.."*

**42.** O ran p'un a oes unrhyw reoliadau'r UE penodol a all fod o fudd i allforwyr Cymru, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau:

> *"Gall mewnforwyr o Gymru elwa ar y trefniadau a nodir yn y Bil wrth i'r DU barhau i gydnabod rheoliadau cynnyrch a marciau cynnyrch (marc CE) yr UE. Mae rhai manteision cyfyngedig i allforwyr Cymru gan y bydd angen iddynt barhau i ddangos eu bod yn bodloni rheoliadau'r UE wrth allforio i'r UE. Nid yw hwn yn drefniant dwyochrog, ac nid yw'r UE yn cydnabod safonau a rheoliadau'r DU fel rhai cyfwerth."*

Unwaith eto mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod ymgysylltiad yn parhau gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys ar welliannau posibl "i sicrhau bod y Bil yn parchu ac yn adlewyrchu datganoli", ac y disgwylir rhagor o wybodaeth am safbwynt Llywodraeth y DU "yn ystod yr wythnosau nesaf.".

## Ein barn ni

### Polisi

**43.** Mae natur fframwaith y Bil yn cyflwyno heriau niferus i'r Pwyllgor graffu'n drylwyr ar y Bil a Memorandwm Llywodraeth Cymru. Nid yw ei wir effaith yn hysbys ar hyn o bryd a chaiff ei nodi mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn y dyfodol. Yn syml, mae gan y Bil y potensial i newid y dirwedd reoleiddiol yn sylweddol (mewn meysydd datganoledig a heb eu datganoli) ond nid yw'n nodi sut y gallai'r dirwedd newid.

**44.** Cyn belled ag y gall y Pwyllgor weld, o'r Memorandwm hwn, y Bil a'r llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet, nid yw'r goblygiadau i fasnach Cymru a'r UE yn hysbys. Byddai'r Bil yn grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol i ddewis cydnabod nifer amhenodol o reoliadau'r UE ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, neu ddim o gwbl. Felly, mae'n anodd mesur ehangder y posibiliadau a'u heffeithiau dilynol, sy'n gwneud gwaith craffu trwyadl yn heriol, os nad yn amhosibl. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am fasnach, mae'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael inni yn peri pryder.

**45.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y byddai'r Bil yn gadarnhaol ar gyfer masnach Cymru a'r UE. Disgrifiwyd hyn yn ddiweddarach inni mewn gohebiaeth fel budd 'posibl' i fewnforwyr (o ran cydnabod marciau CE) a 'budd cyfyngedig' i allforwyr (y mae'n rhaid iddynt barhau i fodloni safonau'r UE). Fel cenedl y DU sy'n dibynnu fwyaf ar allforio i'r UE, rydym yn croesawu mesurau sy'n hwyluso mynediad at farchnadoedd yr UE i fusnesau Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Bil ond yn darparu i'r DU gydnabod gofynion cynnyrch yr UE yn unochrog. Nid yw, ac ni allai, ddarparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol rhwng y DU a'r UE, na mynediad i'r farchnad.

**46.** Am y rheswm hwn, rydym yn cwestiynu a allai'r Bil, yn anfwriadol, roi llai o gymhelliant i'r UE ystyried cynnig telerau masnachu ffafriol i'r DU yn y dyfodol, gan gynnwys fel rhan o'r adolygiad gweithredu sydd ar ddod o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad. Bydd i ba raddau y gall hyn ddigwydd yn dibynnu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU.

**47.** Hefyd am y rheswm hwn, rydym yn nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynghori y bydd y Bil yn rhoi eglurder a'r gallu i gael mynediad at farchnad yr UE i fusnesau Cymru. Nid ydym yn glir ynghylch sut y mae'r Bil yn darparu'r eglurder hwn ac yn cwestiynu sut y gall yr Ysgrifennydd Cabinet fod yn sicr y bydd rheoliadau yn y dyfodol yn gwneud hynny.

**48.** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at 2,500 o dudalennau o ddeddfwriaeth sy'n gofyn am ddiweddariadau technegol fel mater o drefn, a sut y gallai rheoliadau a wneir o dan y Bil fynd rhywfaint o'r ffordd i liniaru'r mater hwn drwy gydnabyddiaeth awtomatig. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai hyn, yn anfwriadol, symud cyfrifoldeb oddi wrth lywodraethau ac i fusnesau nad oes ganddynt adnoddau digonol i gadw i fyny o bosibl.

**49.** Am y rheswm hwn, gwnaethom geisio deall yn well y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r gymuned fusnes, ac i sicrhau y gellir

osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol digroeso. Nodwn, mewn ymateb i'n llythyr, nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet ond yn cyfeirio at waith ymgysylltu a gynhelir gan Lywodraeth y DU, a byddem yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru geisio cymryd rhan, pan fo'n bosibl, yn y gwaith ymgysylltu hwn.

**50.** Nodwn hefyd nad yw safbwyntiau Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru wedi'u ceisio ychwaith, er i'w chylch gwaith ymestyn yn ddiweddar i gwmpasu masnach rhwng y DU a'r UE.

**51.** Mae'r Pwyllgor yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Bil, ond mae'n pryderu ymhellach nad yw Llywodraeth Cymru o hyd yn egluro a yw'n argymell rhoi cydsyniad ar y sail bod "angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU". Er gwaethaf ein cais, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau pa welliannau yr hoffai eu gweld er mwyn argymell y rhoddir cydsyniad. Yr unig beth a ddywed yr Ysgrifennydd Cabinet yw fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar welliannau "i sicrhau bod y Bil yn parchu ac yn adlewyrchu datganoli." Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau parhaus cyn gynted â phosibl.

## Cydsyniad

**52.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau a amlinellir yn y Memorandwm, sef 1(1)(a), 1(1)(b), 1(2), 1(3), 2 – 4 a 7 – 10, i'r graddau y mae'r cymalau hynny'n gymwys i reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd datganoledig.

**53.** Oherwydd y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael, yn enwedig yn sgil y wybodaeth gyfyngedig am effaith y Bil hwn ar fasnach Cymru a'r UE a busnesau Cymru, ni allai'r Pwyllgor ddod i safbwynt gwybodus ynghylch argymell rhoi cydsyniad ai peidio.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y Bil hwn cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, nodi pa newidiadau i'r Bil sydd eu hangen arni er mwyn iddi fod mewn sefyllfa i argymell cydsyniad.